



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 362 – 13 Rhagfyr 2012
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2012.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 361

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 361.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig.

Cafwyd trafodaeth am y Noson Gwylwyr a gynhaliwyd yn Llangadfan ar 21ain Tachwedd. Derbyniwyd adborth positif i'r noson gyda chyfraniadau gwerthfawr gan y gynulleidfa. Trafodwyd fformat a lleoliadau nosweithiau gwylwyr 2013 ac awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor Cynnwys ystyried dadansoddiad o adborth nosweithiau gwylwyr yn y dyfodol.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad ysgrifenedig.

Cyllid DCMS/Cyfnod ariannol 15 mis – Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd parhau i gadw cyfnod 15 mis dan ystyriaeth.

Y Bwrdd Masnachol - Nodwyd bod y Bwrdd Masnachol wedi penderfynu newid amllder ei gyfarfodydd i fod yn chwarterol er mwyn canolbwyntio ar faterion strategol. Roedd hyn yn gyson â'r argymhelliad a gyflwynwyd i'r Awdurdod.

BBC - Diweddariad - Nodwyd bod y Bwrdd Partneriaeth ar y Cyd yn canolbwyntio ar brosiect ddichonolrwydd ar gyfer cydleoli. Bydd adroddiad cyntaf y Bwrdd yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli ym mis Ebrill.

4. Diweddariad Rhaglen Waith 2013/2013-14

Cyflwynwyd diweddariad i Raglen Waith 2013/2013-14 er gwybodaeth. Bydd rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r flwyddyn ariannol galendr.

5. Cymeradwyo'r Cytundeb Gweithredu rhwng yr Awdurdod ac Ymddiriedolaeth y BBC

Cyflwynodd PW ddiweddariad ar y cytundeb gweithredu drafft. Roedd swyddogion wedi trafod yr ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad gyda swyddogion Ymddiriedolaeth y BBC yng Nghymru. Gofynnwyd i'r aelodau ddanfôn unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cytundeb gweithredu drafft i'r Ysgrifennydd cyn gynted ag y bo modd. Cymeradwywyd y swyddogion i barhau i drafod y cytundeb drafft gyda swyddogion Ymddiriedolaeth y BBC gyda'r bwriad o gyflwyno drafft terfynol i'r Awdurdod a'r Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr.

6. Cymeradwyo diweddariad i Bolisi Caffael S4C

Cyflwynodd EM y Polisi Masnachu Teg, y Strategaeth Caffael a'r Datganiad Polisi Caffael. Nodwyd bod y man newidiadau i'r dogfennau yn adlewyrchu adolygiad proses tendro S4C a gymeradwywyd ym mis Tachwedd. Cymeradwywyd y newidiadau i'r Polisi Masnachu Teg, y Strategaeth Caffael a'r Datganiad Polisi Caffael.

7. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys

Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at y pynciau isod:

Daeth cyfres ddiweddaraf **Fferm Ffactor** i ben yn ddiweddar. Nodwyd bod y gyfres wedi llwyddo i ddenu proffil gwylwyr ifanc a bod bwriad i ddarlledu cyfres newydd blwyddyn nesaf.

Drama - Nodwyd bod ail brosiect ar y cyd gyda'r Theatr Genedlaethol, sef **Y Bont**, wedi'i gomisiynu. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar hanes gwrthdystio yng Nghymru.

Chwaraeon - Nodwyd bod **Ralio+** wedi perfformio yn well na'r llynedd a bod slot cyson y rhaglen o fewn yr amserlen wedi gwneud gwahaniaeth i'r ffigurau.

Plant - Cyfeiriwyd at gyfres newydd **Dwylo'r Enfys** a lanswyd ar 3 Rhagfyr. Roedd y rhaglen gyntaf wedi derbyn ymateb positif iawn. Nodwyd bod adnoddau addysgol i gyd-fynd â'r gyfres yn cael eu paratoi mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru.

Nodwyd bod **Cyw** wedi ei enwebu ar gyfer wobwr y sianel gorau i blant gan Bafta Plant.

8. Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys

Cyflwynodd AE yr adroddiad ysgrifenedig, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol:

Derbyniodd y pwyllgor gyflwyniad manwl am berfformiad y gwasanaeth hyd at 2012. Roedd effaith nifer o ffactorau i'w weld ar y ffigurau gan gynnwys effaith digwyddiadau Prydeinig megis y gemau Olympaidd. Cafwyd trafodaeth am bwysigrwydd amrediad o fesuryddion perfformiad yn ogystal â ffigurau cyrhaeddiad.

Rhodddwyd cyflwyniad gan GMLl am strategaeth Drama newydd S4C. Croesawyd y cyflwyniad a'r weledigaeth ar gyfer ymestyn darpariaeth drama S4C yn y dyfodol. Roedd y pwyllgor yn falch o weld bod y strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd drama o fewn amserlen S4C.

9. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol
- Adroddiad Cyfathrebu
- Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg